LLYWODRAETHIANT CYMUNEDOL AR SAIL GWYBODAETH: FFYRDD NEWYDD O WEITHREDU O FEWN Y GYMUNED FFRANGEG YNG NGHANADA A LLEIAFRIFOEDD IEITHYDDOL ERAILL

FFRAMWAITH CYFFREDIN AR GYFER AELODAU O'R GYNGHRAIR YMCHWIL

Ein Cynghrair

Mae ein cynghrair wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth bod grwpiau lleiafrifol Ffrangeg ac arweinwyr cymunedol yng Nghanada, sydd yn gweithio o fewn cyd-destun deinamig, yn dymuno adfer eu gallu i ddatblygu a dylanwadu ar sut mae eu cymunedau yn cael eu llywodraethu. Mae'r grwpiau hyn wedi nodi nifer o heriau yng nghyd-destun llywodraethiant:

- Sut gall amrywiaeth yn ei hamryfal ffurfiau gael ei chydlynu?
- Sut gall pobl ifanc chwarae rhan fwy canolog yn natblygiad eu cymunedau?
- Sut gall grwpiau gydweithio'n fwy?
- Beth yw'r dulliau newydd a fyddai'n eu galluogi i ymaddasu'n well i gyd-destunau newydd?
- Sut mae lleiafrifoedd ieithyddol, ar draws y byd, yn profi newid?

Cyfleoedd Newydd

Pwrpas y gynghrair yw creu cyfleoedd ar gyfer ymchwil, cyfnewid gwybodaeth a gweithredu. Mae'n gyfle i ymchwilwyr academaidd a chymunedol ddod ynghyd er mwyn meddu ar well ddealltwriaeth o'r dulliau newydd o weithredu sydd yn bodoli ac i'w cymhwyso ar gyfer datblygiad cymunedol naill ai oddi fewn i gymunedau Ffrangeg yng Nghanada neu leiafrifoedd ieithyddol mewn gwledydd eraill.

Ein hathroniaeth

Cydweithio a chymharu yw sail ein hathroniaeth a dulliau gweithredol gan gynnwys y canlynol:

- Datblygu strategaethau gweithredol
- Cydweithredu parhaus i werthuso
- Datblygu dulliau newydd o feddwl am ein cymunedau a gwella'n dealltwriaeth a'n gwybodaeth trwy ddefnyddio methodoleg sydd yn canolbwyntio ar gydweithio ac ar ddatblygu dulliau ymchwil ar y cyd (ee, arolygon, gridiau ar gyfer dadansoddi a gwerthuso data, ac ati).

Athroniaeth o weithredu a seiliwyd ar ddeialog barhaus ac ar gymhariaeth gyson gyda lleiafrifoedd ieithyddol tebyg mewn mannau eraill.

Mae'r athroniaeth hon yn meithrin agwedd feirniadol er mwyn datblygu annibyniaeth ein partneriaid cymunedol wrth iddynt elwa ar ddulliau newydd o weithredu—dulliau a ddylai fod yn werthfawr i bob un o gymunedau Ffrangeg Canada.

Nodau

- Astudio, gwerthuso, cymharu a ffurfioli llywodraethiant cymunedol sy'n seiliedig ar wybodaeth.
- Nodi strategaethau pendant ar gyfer gweithredu.
- Lledaenu dealltwriaeth newydd o rôl llywodraethiant cymunedol wrth ysgogi lleiafrifoedd Ffrangeg a ieithyddol

Cwestiynau Ymchwil

- Beth yw'r wybodaeth a'r arferion arloesol newydd posibl ym maes datblygu cymunedol?
- Sut maent yn cyfrannu at adfywiad llywodraethiant cymunedol?
- Sut y gall y wybodaeth fwyaf arloesol gael ei thrawsblannu neu ei gwau i mewn i strategaethau ar gyfer gweithredu?

Université d'Ottawa
55, avenue Laurier Est
Pavillon Desmarais
pièce 3182
Ottawa, Ontario, Canada
K1N 6N5

Tél. : 613-562-5800
poste 4754
Téléc. : 613-562-5380
www.aruc.uottawa.ca
aruc@uOttawa.ca